# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 3**

TREFNIADAETH YSGOLION

**PENNOD 5**

CYNIGION I AILSTRWYTHURO ADDYSG CHWECHED DOSBARTH

*Gwneud cynigion a'u penderfynu*

**71 Pwerau Gweinidogion Cymru i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud cynigion o dan yr adran hon—

(a) i un neu fwy o ysgolion cymunedol neu arbennig cymunedol newydd gael eu sefydlu gan awdurdod lleol i ddarparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall);

(b) ar gyfer newid a ddisgrifir ym mharagraff 6 o Atodlen 2 i un neu fwy o ysgolion a gynhelir;

(c) i derfynu un neu fwy o ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg uwchradd sy'n addas at anghenion disgyblion chweched dosbarth (ac nid unrhyw addysg uwchradd arall).

(2) Mae "disgybl chweched dosbarth" yn berson sydd dros oedran ysgol gorfodol ond o dan 19 oed.

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

## 72 Ymgynghori, cyhoeddi a gwrthwynebiadau

(1) Cyn cyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ynglyn â'r cynigion yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynigion a wneir o dan adran 71 yn unol â'r cod a ddyroddwyd o dan adran 38(1) ac sydd mewn grym am y tro.

(3) Caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

(4) Rhaid i wrthwynebiadau gael eu hanfon yn ysgrifenedig at Weinidogion Cymru cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion.

## 73 Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

(1) Ar ôl diwedd yr 28 o ddiwrnodau y cyfeiriwyd atynt yn adran 72(4), rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid—

(a) mabwysiadu'r cynigion, gydag addasiadau neu hebddynt, neu

(b) tynnu'r cynigion yn eu hôl.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn unol ag adran 72(4) ac sydd heb gael eu tynnu'n ôl.

(3) Cyn mabwysiadu cynigion yn ddarostyngedig i addasiadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn credu eu bod yn briodol.

(4) Caniateir i fabwysiad cynigion ddatgan mai dim ond os bydd digwyddiad a bennir yn y mabwysiad yn digwydd erbyn dyddiad a bennir felly, y byddai'n dod yn weithredol.

(5) Os na fydd y digwyddiad yn digwydd erbyn y dyddiad penodedig rhaid i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad o dan is-adran (1).

(6) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu eu cynigion yn ôl ar unrhyw bryd cyn iddynt wneud penderfyniad o dan is-adran (1).